# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, R Meirion Jones a P S Rogers |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau, Dynol a Thrawsnewid,<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (DJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Bryan Owen |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Neb |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaeth y Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol a Thrawsnewid ddatganid o ddiddordeb yn Eitem 4 – Ailstrwythuro Uwch Reolwyr os byddai trafodaeth yn cael ei chynnal ar gydnabyddiaeth ariannol.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2019.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni ym Mharagraff 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 AIL-STRWYTHURO UWCH REOLWYR**

Cyflwynwyd – adroddiad manwl gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

**PENDERFYNWYD:-**

- **peidio â llenwi swydd wag gyfredol y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant Corfforaethol a Thrawsnewid Mewnol);**
- **bob adolygiad manwl o'r strwythur Uwch Reolwyr yn cael ei gynnal er mwyn cefnogi y model rheoli sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 yr adroddiad;**

- **o ganlyniad i’r uchod, cefnogi’r egwyddor o adolygu’r model cyflogau a fydd yn codi yn sgîl dyrannu mwy o gyfrifoldebau.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**